Anrheg

Nadolig

Syniadau i Athrawon

Chris S. Stephens

GOMER

Tudalen a Phwnc	Cysylltiadau Traws-gwricwlaidd â Llythrennedd	Cysylltiad â Gofynion Cyffredin y C.C.
t. 3 Anrhegion Nadolig ● Cynllunio a gwneud bocsys 'Christmas Box' i gasglu arian, o bosib o glai neu bapier-mâché. ● Dweud wrth bartner sut byddwch chi'n addurno eich cartref adeg y Nadolig – a sut caiff yr addurniadau eu storio.	Dylunio a Thechnoleg Llythrennedd / ABCh	Y Cwricwlwm Cymreig Sgiliau Cyfathrebu Sgiliau Creadigol Addysg Bersonol a Chymdeithasol
t. 4/5 Cardiau Nadolig ● Darllen 'Gwlad y Cardiau Nadolig' gan T. Llew Jones, Penillion y Plant, Gomer, sy'n trafod y lluniau ar wahanol gardiau ● Creu arddangosfa o gardiau Nadolig – cytuno ar ddosbarthu i wahanol gategorïau – crefyddol, cartwnau, golygfeydd gaeafol, cyfarchion dwyieithog. Trefnu pleidlais gudd i ddewis yr hoff gerdyn. ● Cysylltu ag amgueddfa neu archifdy lleol (drwy lythyr neu e-bost); oes casgliad o gardiau Nadolig ganddyn nhw? ● Casglu copïau o ddarluniau o'r Geni gan Hen Feistri.	Llythrennedd Addysg Grefyddol Dylunio a Thechnoleg Hanes / Sgiliau TG Celf	Sgiliau Creadigol Sgiliau Cyfathrebu Y Cwricwlwm Cymreig Sgiliau Technoleg Gwybodaeth
t. 6/7 Stori'r Robin Goch ● Egluro'r chwedl o Lydaw i bartner, neu greu meim o'r chwedl Inuit gydag offerynnau taro addas. ● Creu collage papur wedi'i rwygo o'r robin yn un o'r tair chwedl (e.e. gyda'r goron ddrain). Ymchwilio i chwedlau eraill yn ymwneud ag adar (cysylltiad â'r Dryw). ● Gwneud casgliad o gardiau 'Robin Goch y Nadolig' – oes rhai wedi cael eu personoli, neu â nodweddion dynol iddynt? Trafod y rhesymau pam.	Llythrennedd – Llafaredd Cerddoriaeth Celf Llythrennedd – llafaredd/ trafod Celf	Sgiliau Cyfathrebu Sgiliau Creadigol
t. 8/9 Y Geni ● Cyfansoddi eich carol eich hun – defnyddio tonau cyfarwydd os oes angen. ● Ymchwilio i storïau'n ymwneud â charolau poblogaidd, e.e. *Tawel Nos*. ● Cyfweld â phobl hŷn / mam-gu a thad-cu / taid a nain am eu hatgofion nhw am y Nadolig. Creu gridiau 'Slawer Dydd (Ers Talwm) a Heddiw' i gofnodi'r newidiadau. ● Llunio arddangosfa fechan o luniau dramâu Nadolig yr ysgol dros y blynyddoedd – gyda chapsiynau a dyddiadau priodol.	Addysg Grefyddol Cerddoriaeth Hanes	Sgiliau Creadigol Sgiliau Technoleg Gwybodaeth Sgiliau Cyfathrebu Addysg Bersonol a Chymdeithasol Y Cwricwlwm Cymreig
t.10/11 Y Plygain a Ryseitiau Nadolig ● Ymchwilio i lyfrau log ysgolion am gyfeiriadau at y Nadolig. ● Coginio – gwneud y cyflaith, ond nid y cwrw! ● Coginio cacen Nadolig i'r dosbarth – trafod ei thorri o ran fracsiynau ayyb; cost y cynhwysion. ● Casglu ryseitiau ar gyfer llyfr Ryseitiau'r Nadolig – dynlunio'r cloriau, argraffu a gwerthu, neu ei ddefnyddio fel anrheg i rieni. ● Dod o hyd i garol Plygain a'i dysgu.	Hanes / Llythrennedd Dylunio a Thechnoleg Mathemateg Cerddoriaeth	Y Cwricwlwm Cymreig Sgiliau Datrys Problemau Sgiliau Mathemategol

Tudalen a Phwnc	Cysylltiadau Traws-gwricwlaidd â Llythrennedd	Cysylltiad â Gofynion Cyffredin y C.C.
t. 12/13 Siôn Corn ● Ymchwilio i draddodiadau a'r gwledydd sy'n gysylltiedig â Siôn Corn, Sant Nicholas a'r Tad Nadolig. ● Darllen cerdd Lis Jones a gofyn i aelodau hŷn y teulu, a rhieni am yr anrhegion a oedd yn boblogaidd pan oedden nhw'n blant. ● Casglu unrhyw luniau o blant yn ymweld â Siôn Corn. Cymharu a chyferbynnu ei wisg, y lleoliad, dillad y plant.	Hanes / Daearyddiaeth / Technoleg Gwybodaeth Llythrennedd – Llafaredd Hanes	Sgiliau Cyfathrebu Sgiliau Technoleg Gwybodaeth Sgiliau Creadigol Addysg Bersonol a Chymdeithasol
t. 14/15 Llyfrau'r Nadolig a Phartïon ● Gwneud arddangosfa o *annuals* – ceisio llunio cyfres ddi-dor (dyweder o 1970-2000), neu'u trefnu fesul teitl, e.e. Llyfrau Blue Peter, *Beano.* ● Darllen darn o *A Child's Christmas in Wales*, a chyflwyno gwaith arall gan Dylan Thomas. ● Gwneud rhestr o hoff gemau parti – cyflwyno'r wybodaeth ar ffurf graff neu bictogram.	Saesneg Saesneg – Llythrennedd - barddoniaeth ac ystod Llythrennedd / Mathemateg	Sgiliau Datrys Problemau Y Cwricwlwm Cymreig Sgiliau Mathemategol
t. 16/17 Dail Bythwyrdd ● Ymchwilio i chwedlau a mythau o wledydd eraill yn ymwneud â choed – stori Baldur o Norwy, Loki a'r uchelwydd, Boniface a'r Goeden Nadolig gyntaf a Draenen Glastonbury. ● Darllen a chanu'r carolau ' Y Gelynnen' a 'The Holly and the Ivy'; tynnu brasluniau. ● Creu ffeil-o-ffaith / cronfeydd data am goed bythwyrdd penodol / trafod y gwahaniaethau rhwng coed bythwyrdd a choed collddail: defnyddio fframau ysgrifennu *cymharu a chyferbynnu* i gyflwyno gwybodaeth.	Daearyddiaeth / Llythrennedd Cerddoriaeth / Celf Sgiliau TG / Llythrennedd – testunau ffeithiol	Addysg Bersonol a Chymdeithasol Sgiliau Technoleg Gwybodaeth Sgiliau Creadigol Y Cwricwlwm Cymreig
t. 18 Y Crëyr, Y Gath a'r Fiaren ● Ailadrodd y stori o safbwynt un o'r ffrindiau, ac felly troi'r testun o'r 3ydd person i'r person 1af – pwysleisio rôl cyfeillgarwch. Dod o hyd i chwedlau eraill ar gyfer y Nadolig, ee. Nadolig y Pryf Copyn. **t.19 Yr Angel** ● Trafod y gerdd a thynnu sylw at y ddelweddaeth a'r cyflythrennu. ● Creu rhestr ddosbarth o gyffelybiaethau mewn cerdd o'r enw: <u>*Sut i wneud Angel*</u> *Rhaid cael adenydd fel …* *Rhaid cael gwallt fel …* ● Dweud wrth bartner sut byddwch chi'n addurno eich cartref adeg y Nadolig – a sut caiff yr addurniadau eu storio.	Cymraeg - Llythrennedd – ffurfiau berfol Cymraeg - Llythrennedd – barddoniaeth Llythrennedd – llafaredd ABCh	Sgiliau Creadigol Addysg Bersonol a Chymdeithasol Y Cwricwlwm Cymreig Sgiliau Cyfathrebu
t. 20/21 Pantomeim ● Ymchwilio i hanes y Pantomeim (er enghraifft www.itsbehindyou.fsnet.co.uk). ● Gwneud casgliad o raglenni pantomeim, tocynnau ac ati. Creu poster neu restr o actorion ar gyfer pantomeim dychmygol, gyda sêr y byd pop a'r cyfryngau'n chwarae'r prif rannau. ● Dylunio gwisg anhygoel, dros ben llestri ar gyfer 'dame' mewn pantomeim. ● Llunio sgript ar gyfer golygfa o bantomeim.	Hanes / TG / Llythrennedd Llythrennedd – perswadio Dylunio a Thechnoleg / Celf Llythrennedd - drama	Sgiliau Creadigol Sgiliau Technoleg Gwybodaeth Sgiliau Cyfathrebu

Tudalen a Phwnc	Cysylltiadau Traws-gwricwlaidd â Llythrennedd	Cysylltiad â Gofynion Cyffredin y C.C.
t. 22/23 Y Dryw ● Gwneud tŷ i'r dryw o focs esgidau, gan ddefnyddio'r darlun a'r disgrifiad yn y testun. ● Chwarae rôl Cyfarfod yr Adar – gyda gwahanol adar yn rhoi rhesymau pam dylsent fod yn Frenin – y plu harddaf, y big finiocaf ayb. ● Creu ffeil-o-ffaith / cronfa ddata am ddrywod, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ar boster dychmygol 'Yn Eisiau' – Drywod – yn fyw neu'n farw!	Dylunio a Thechnoleg Llythrennedd – drama Llythrennedd – testunau gwybodaeth	Sgiliau Creadigol Y Cwricwlwm Cymreig Sgiliau Technoleg Gwybodaeth
t. 24/25 Gwaseila ● Dylunio a gwneud eich cwpan gwasael eich hun, gan ddefnyddio balŵn a papier mâché; gludio dolenni o gardbord a lluniau decoupage arno, ac yna roi farnais arno gyda PVA. ● Darganfod mwy am grochenwaith Ewenni, neu ysgrifennu at Grochendy Gwili am gatalog. ● Trefnu i grochenydd ymweld â'r ysgol: ymweld â chrochendy lleol.	Dylunio a Thechnoleg Hanes / Llythrennedd Celf	Y Cwricwlwm Cymreig Sgiliau Creadigol Addysg Bersonol a Chymdeithasol
t. 26/7 Calan ● Holi perthnasau oedrannus am arferion Calan. ● Dylunio a chreu cardiau Calan gan ddefnyddio rhai o'r penillion. ● Ymchwilio i'r gerddoriaeth sy'n gysylltiedig â rhai o'r penillion: eu dysgu a'u canu.	Llythrennedd - Llafaredd Dylunio a Thechnoleg Celf Cerddoriaeth	Sgiliau Cyfathrebu Y Cwricwlwm Cymreig Sgiliau Creadigol
t. 28/9 Mari Lwyd ● Ysgrifennu cofnod dyddiadur y bachgen yn y llun, yn sôn am rialtwch y noson gyda chriw'r Fari Lwyd. ● Creu pyped Mari Lwyd o hosan wen neu fag papur gwyn: ei addurno â rhubanau a chlychau. ● Llunio mwy o benillion ar gyfer Cân y Fari Lwyd – gyda rhythm a phatrwm odlau tebyg.	Llythrennedd – ffurfiau llenyddiaeth Dylunio a Thechnoleg Cerddoriaeth / Llythrennedd - barddoniaeth	Y Cwricwlwm Cymreig Sgiliau Creadigol
t. 30/31 Y Flwyddyn Newydd ● Dod o hyd i gerddi Cymraeg neu Saesneg eraill sy'n rhestru misoedd y flwyddyn.Cyhoeddi casgliad ar gyfer dosbarthiadau eraill. Cyfansoddi cerdd ddosbarth ar yr un thema â cherdd T. llew Jones, Misoedd y Flwyddyn. ● Casglu hen galendrau; yna gall plant lunio cwestiynau ac atebion am ddyddiau'r wythnos, ayb. – *"Beth oedd dyddiad y dydd Mercher olaf ym mis Rhagfyr 1946?"* ● Llunio Carol y Flwyddyn Newydd, i wahodd ffrindiau a theulu i'ch cartref neu dref. Gallech ddefnyddio tôn 'Clementine' fel sydd yn y llyfr.	Llythrennedd / Sgiliau Technoleg Gwybodaeth Llythrennedd / Mathemateg Cerddoriaeth / Llythrennedd	Sgiliau Datrys Problemau Sgiliau Technoleg Gwybodaeth Sgiliau Mathemategol Addysg Bersonol a Chymdeithasol